# Cod Llywodraethu Corfforaethol




2023 - 2024

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS


| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| **1.** Cyflwyniad a Diben | 3 |
| **2.** Sut mae'r Cyngor yn cyflawni Llywodraethu Da yn gyffredinol | 6 |
| **Egwyddor A:** Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith | 6 |
| **Egwyddor B:** Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid | 9 |
| **Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy | 11 |
| **Egwyddor D:** Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf | 13 |
| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo | 16 |
| **Egwyddor F:** Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref | 18 |
| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da yn ymwneud â thryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol | 22 |
| **3.** Adolygu a Monitro | 24 |
| **4.** Datganiad Sicrwydd | 25 |


Tra mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa Bensiynau), mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn llunio eu Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu hunain.

# 1. Cyflwyniad a Diben

Yn unol â'r *Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da* mae yna ddisgwyliad fod yna strwythur lleol o ran llywodraethu wedi ei osod yn ffurfiol, y cyfeirir ato'n aml fel y Cod Lleol, o fewn pob awdurdod lleol, er yn ymarferol fe all gynnwys nifer o ddogfennau. Dylai pob awdurdod fod yn gallu dangos fod y strwythur llywodraethu sydd mewn grym yn cydymffurfio gyda'r egwyddorion a'r is egwyddorion a gaiff eu cynnwys yn y *Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da*.

"Mae llywodraethu yn greiddiol i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n sail i'r ffordd y caiff adnoddau eu rheoli, y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud, y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'r effaith y maent yn eu cael, nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn treiddio i'r ffordd y mae sefydliadau yn cael eu harwain a sut maent yn rhyngweithio gyda'r cyhoedd. Mae angen i lywodraethu fod yn gadarn ond hefyd mae'n rhaid iddo fod yn gymesur. Mae sefydliadau a lywodraethir yn dda yn ddeinamig ac yn cymryd risgiau sy'n cael eu rheoli'n dda; ond nid ydynt yn llonydd nac yn fiwrocrataidd." [1]

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith. Mae'r Cyngor wedi datblygu Cod (strwythur) Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n diffinio'r egwyddorion sy'n sail i lywodraethu'r sefydliad. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Mae crynodeb o'r egwyddorion sy'n sail iddo i'w gweld yn Adran 3 y ddogfen hon.


Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys diwylliant, gwerthoedd, systemau a phrosesau sy'n sail i'r ffordd y caiff sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli. Yn greiddiol i'n llywodraethu corfforaethol effeithiol mae ein hymlyniad at saith egwyddor Nolan, sy'n deillio o *Taro'r Cydbwysedd - Cynnal Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus mewn Rheoliadau* fel y rhestrir yn y tabl a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

| SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS | |
|---|---|
| **Anhunanoldeb** | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. |
| **Uniondeb** | Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn elwa'n ariannol neu gael budd materol arall iddyn nhw eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw gysylltiad a pherthnasoedd. |
| **Gwrthrychedd** | Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac yn ôl eu rhinwedd, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn. |
| **Atebolrwydd** | Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd o ran eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn agored i'r mesurau archwilio sy'n ofynnol i sicrhau hyn. |
| **Bod yn agored** | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw oddi wrth y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithiol dros wneud hynny. |
| **Gonestrwydd** | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest. |
| **Arweinyddiaeth** | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo'r egwyddorion yn frwd a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio unrhyw ymddygiad gwael pryd bynnag fo hynny'n digwydd. |

[1] Swyddfa Archwilio Cymru: "Papur Trafod: Yr heriau llywodraethu sy'n cael eu cyflwyno gan wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol ac a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru" 2017


Mae'r diagram isod wedi ei seilio ar y Fframwaith Rhyngwladol: *Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (CIPFA/IFAC, 2014) (y 'Fframwaith Rhyngwladol')*, ac yn darlunio egwyddorion amrywiol llywodraethu da yn y sector cyhoeddus a sut maent yn ymwneud â'i gilydd.

Mae Egwyddorion A a B yn treiddio i weithredu egwyddorion C i G. Mae'r diagram hefyd yn darlunio fod llywodraethu da yn ddeinamig, ac y dylid ymrwymo endid yn gyfan i wella llywodraethu ar sail barhaus drwy broses o werthuso ac adolygu.



Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn dod â chyfres sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion arfer da a phrosesau rheoli ynghyd (gweler y diagram isod)

## FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL



# 2. Sut mae'r Cyngor yn Cyflawni Llywodraethu Da yn gyffredinol:

Gyda'r adran hon rydym yn dangos sut y cyflawnir llywodraethu da a sut y cynhelir hynny yn erbyn Egwyddorion Craidd ac Is Egwyddorion y Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da.

**Egwyddor A: Egwyddor graidd: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith**

| YMDDWYN GYDAG UNIONDEB | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 1. Sicrhau fod Aelodau a gweithwyr yn ymddwyn gydag uniondeb ac arwain diwylliant lle mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson ac felly amddiffyn enw da'r Sefydliad.<br>2. Sicrhau fod Aelodau yn arwain o ran sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i weithwyr a bod y gwerthoedd hynny'n cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan).<br>3. Gan arwain drwy enghraifft a defnyddio'r egwyddorion neu werthoedd hyn sy'n gweithredu safonau fel fframwaith ar gyfer llunio penderfyniadau a chamau gweithredu eraill.<br>4. Dangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion neu werthoedd sy'n gweithredu'r safonau drwy bolisïau/prosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. | • Mae gan ein Cyfansoddiad y Codau Ymddygiad a Phrotocolau y mae Aelodau a Swyddogion (gweithwyr) wedi cytuno i gydymffurfio gyda nhw.<br>• Mae'r Cyngor yn mynnu fod ein Haelodau, p'un ai a ydynt yn Aelodau etholedig neu gyfetholedig, yn llofnodi ein Cod ac ymrwymo iddo.<br>• Cod Ymddygiad Aelodau (1,2,3, a 4)<br>• Mae Safon Sir y Fflint, sy'n cynnwys Gweithdrefn Ddatrys Leol, ar gyfer cwynion am ymddygiad Aelod (1,2,3 a 4)<br>• Protocol i'r Aelodau ar y modd y dylent ymdrin â chontractwyr, datblygwyr a thrydydd parti eraill. (1,3 a 4)<br>• Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion (1,2,3 a 4)<br>• Cod Ymddygiad Gweithwyr (1,3 a 4)<br>• Rydym yn gweithredu protocol etholiadau effeithiol, gan sicrhau fod safonau uchel yn cael eu cynnal yn ystod cyfnod etholiadau. (1)<br>• Caiff ein rhestr o swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol ei hadolygu'n rheolaidd a chaiff deiliaid swyddi eu hatgoffa o gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol. (1,2,3, a 4)<br>• Mae gennym ni bolisi Urddas yn y Gwaith a Pholisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb (1,2,3 a 4)<br>• Mae canllawiau wedi eu darparu i aelodau ar gynnal Cyfarfodydd o Bell (1) |

| DANGOS YMRWYMIAD CADARN I WERTHOEDD MOESEGOL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal perfformiad a safonau moesegol y sefydliad.<br><br>6. Gosod gwerthoedd moesegol yn sail i ymddygiad personol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau gweithrediad y sefydliad.<br><br>7. Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol y cytunwyd arnynt.<br><br>8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr allanol y gwasanaethau ar ran y sefydliad weithredu gydag uniondeb a gan gydymffurfio â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y sefydliad. | • Fe ddangosir ymrwymiad y Cyngor i egwyddorion Nolan yn y codau a'r polisïau isod sydd i'w canfod yn y Cyfansoddiad:<br>- Cod Ymddygiad Aelodau (5,6)<br>- Mae Safon Sir y Fflint sy'n cynnwys Gweithdrefn Ddatrys Leol ar gyfer cwynion am ymddygiad Aelodau (5,6)<br>- Protocol i'r Aelodau ar y modd y dylent ymdrin â chontractwyr / datblygwyr a thrydydd parti eraill. (5,6)<br>- Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion (5,6)<br>- Cod Ymddygiad Gweithwyr (5,6)<br>• Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (7)<br>• Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (7)<br>• Strategaeth Gaffael (7)<br>• Polisi Rhannu Pryderon (7)<br>• Cydymffurfedd gyda Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (8)<br>• Datblygu gwerthoedd ac ymddygiadau'r Cyngor drwy ymgynghori gyda'r gweithlu (5, 6) |

| PARCHU RHEOLAETH Y GYFRAITH | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 9. Sicrhau fod Aelodau a gweithwyr yn dangos ymrwymiad cadarn i reolaeth y gyfraith yn ogystal â glynu at y deddfau a'r rheoliadau perthnasol.<br>10. Creu'r  i sicrhau fod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac Aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheolaethol.<br>11. Ceisio gwneud y defnydd mwyaf o bwerau llawn y Cyngor sydd ar gael er budd ei ddeiliaid, ei gymunedau a budd-ddeiliaid eraill.<br>12. Ymdrin ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol yn effeithiol.<br>13. Sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â llygredigaeth a chamddefnyddio pŵer. | • Ein Prif Swyddog (Llywodraethu) yw'r Swyddog Monitro a'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (9,10,11,12,13)<br>• Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol o fewn y Portffolio Llywodraethu yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n cynnwys tri Aelod lleyg annibynnol. (9,11,12,13)<br>• Mae gennym ni bwyllgor Safonau sy'n hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau etholedig a chyfetholedig. Mae'n cynnwys pum Aelod lleyg annibynnol, tri chynghorydd sir ac un cynrychiolydd o'r cynghorau tref a chymuned. Mae adolygiad o'r holl bwyllgorau wedi ei gynnal gan y Pwyllgor Safonau (9,10,11).<br>• Mae gennym berthynas gref gyda Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff rheoleiddio eraill (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ogystal â'r pedwar Comisiynydd dros y Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, Plant a Phobl Hŷn).  (9, 11,12)<br>• Mae gennym ni swyddogaeth Trosolwg a Chraffu gadarn yn cynnwys pum pwyllgor sydd gyda'i gilydd yn ymdrin â holl swyddogaethau'r Cyngor a'n partneriaethau allanol. (9,10,11)<br>• Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion gan gwsmeriaid sydd heb eu datrys neu heb eu bodloni ac mae'r manylion cyswllt wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan. (9,10,12,13)<br>• Polisi Rhannu Pryderon, Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, a Chynllun Ymateb i Dwyll (12 a 13) |

## Egwyddor B: Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid

| BOD YN AGORED | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 14. Sicrhau diwylliant agored drwy ddangos, dogfennu a chyfathrebu ymrwymiad y sefydliad tuag at fod yn agored. | • Gwefan y Cyngor, y fewnrwyd a rhwydweithiau partneriaid i ddangos yn barhaus ein hymrwymiad tuag at fod yn agored (14,15). |
| 15. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynglŷn â gweithredoedd, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagolygon, allbynnau a chanlyniadau. Mae'r dybiaeth ar gyfer bod yn agored. Os nad yw hynny'n digwydd, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer y rhesymau dros gadw penderfyniadau'n gyfrinachol. | • Mae mwyafrif yr adroddiadau pwyllgor yn cael eu hystyried yn gyhoeddus oni bai fod yna sail gyfreithiol amlwg dros gyfrinachedd (15)<br>• Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (14,15) |
| 16. Darparu rhesymu clir a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac eglurhad i fudd-ddeiliaid a bod yn eglur ynglŷn â'r meini prawf, rhesymeg a'r ystyriaethau a ddefnyddiwyd. Maes o law, sicrhau fod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny yn eglur. | • Mae calendr o gyfarfodydd y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys dolenni i'r ffrwd fyw (14)<br>• Caiff holl gyfarfodydd y Cyngor eu ffrydio drwy weddarllediad byw. Mae recordiadau ar gael yn dilyn hynny ar ein gwefan (15) |
| 17. Defnyddio ymgynghoriad ac ymgysylltiad ffurfiol ac anffurfiol i lywio'r ymyriadau / dulliau gweithredu mwyaf addas ac effeithiol. | • Caiff Papurau Pwyllgor eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (16)<br>• Y Fforwm Sirol (17)<br>• Y Polisi Pryderon a Chwynion (17)<br>• Arolygon (17)<br>• Digwyddiadau ymgynghori (17)<br>• Datganiad Polisi a Safonau Gofal Cwsmer (17) |

| YMGYSYLLTU'N GYNHWYSFAWR Â BUDD-DDEILIAID SEFYDLIADOL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 18. Ymgysylltu'n effeithiol gyda budd-ddeiliaid i sicrhau fod y diben, amcan, a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer pob perthynas budd-ddeiliaid yn eglur fel bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy.<br>19. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i alluogi i adnoddau gael eu defnyddio'n fwy effeithiol a chanlyniadau i gael eu cyflawni'n fwy effeithiol.<br>20. Sicrhau fod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir tuag at newid, diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn derbyn her ymysg partneriaid; a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn amlwg. | • Ymgynghori ag Undebau Llafur (18)<br>• Partneriaethau Strategol (19)<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Cynllun Lles) (19)<br>• Cydbwyllgorau Corfforedig (19)<br>• Bwrdd Uchelgais Economaidd (19)<br>• Bwrdd Herio (19)<br>• Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (19)<br>• Llywodraethu a gytunwyd ar gyfer Partneriaethau (20) |

| YMGYSYLLTU'N EFFEITHIOL Â BUDD-DDEILIAID, GAN GYNNWYS DINASYDDION A DEFNYDDWYR GWASANAETHAU UNIGOL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 21. Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon gyda neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau fod darpariaeth gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.<br>22. Sicrhau fod dulliau cyfathrebu yn effeithiol a bod Aelodau a'u gweithwyr yn eglur ynglŷn â'u rolau yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned.<br>23. Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys cyfeiriad at anghenion y dyfodol.<br>24. Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut mae eu safbwyntiau wedi eu cymryd i ystyriaeth.<br>25. Cydbwyso adborth gan grwpiau budd-ddeiliaid mwy bywiog gyda grwpiau budd-ddeiliaid eraill i sicrhau cynhwysiant.<br>26. Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol. | • Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol (21, 24)<br>• Arolygon, Effaith a Chasglu Tystiolaeth (22)<br>• Dulliau effeithiol o Gyfathrebu (22)<br>• Asesiadau o Effaith Integredig (23, 25)<br>• Adroddiadau Strategol (26)<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (26)<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol (26)<br>• Mae canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei ddatblygu ar gyfer gwefan y Cyngor (23)<br>• Mae tudalen Facebook Cyngor Sir y Fflint yn darparu sianel ddwy ffordd ar gyfer rhannu gwybodaeth a chasglu adborth (23) |

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| DIFFINIO CANLYNIADAU | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 27. Meddu ar weledigaeth glir, sy'n ddatganiad ffurfiol a gytunwyd o ddiben y sefydliad a'r canlyniadau a fwriedir sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol, sy'n rhoi'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y sefydliad, cynllunio a phenderfyniadau eraill.<br>28. Nodi'r effaith a fwriedir ar fudd-ddeiliaid, neu'r newidiadau ar eu cyfer, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth. Fe all fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hirach.<br>29. Darparu canlyniadau a ddiffiniwyd ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau fydd ar gael.<br>30. Nodi a rheoli risgiau ar gyfer cyflawni canlyniadau.<br>31. Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. | • Cynllun y Cyngor (27,28)<br>• Asesiadau o Effaith Integredig (28)<br>• Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (28)<br>• Strategaeth Lleihau Corfforaethol (29, 31)<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (29,31)<br>• Y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau (29,31)<br>• Y Fframwaith Rheoli Risg a'r Canllaw Defnyddwyr (30)<br>• Strategaeth Ddigidol (31)<br>• Polisi Pryderon a Chwynion (31)<br>• Datganiad Polisi a Safonau Gofal Cwsmer (31)<br>• Strategaeth Pobl (31)<br>• Cynllun Parhad Busnes AD (31) |

| BUDDION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL CYNALIADWY | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
| --- | --- |
| 32. Ystyried a chydbwyso effaith cyfun polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth.<br>33. Cymryd safbwynt tymor hirach o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.<br>34. Penderfynu'r budd cyhoeddus ehangach sy'n gysylltiedig â chydbwyso buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol amrywiol, drwy ymgynghoriad lle bo'n bosibl, er mwyn sicrhau'r datrysiadau gorau posibl i fudd-ddeiliaid.<br>35. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau. | • Adroddiadau Pwyllgor (32,33,34)<br>• Polisi Gosod y Gyllideb (32,33)<br>• Y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau (32,33)<br>• Asesiadau Effaith Integredig (32,34,35)<br>• Asesiad o Les a'r Cynllun Lles (34)<br>• Safonau gwasanaeth gan gynnwys monitro rhai gwasanaethau o ran cydraddoldeb (35)<br>• Polisi Pryderon a Chwynion (35)<br>• Strategaeth Ddigidol, sy'n cynnwys cynhwysiant digidol (35) |

## Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir i'r eithaf

| PENDERFYNU AR YMYRIADAU | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 36. Sicrhau fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrwyadl o amrywiaeth o ddewisiadau yn dangos sut y byddai'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni a gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dewisiadau hynny. Felly sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau waeth sut y caiff gwasanaethau eu darparu.<br>37. Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwelliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu gofynion cystadleuol o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gadw mewn cof effeithiau yn y dyfodol. | • Y System Bwyllgorau (36)<br>• Cyfarfodydd Pwyllgorau, gweithdai a sesiynau briffio (36)<br>• Cofnodion Pwyllgor (36)<br>• Adroddiadau Pwyllgor (37)<br>• Nodiadau Canllaw wedi eu Diweddaru ar gyfer cwblhau Adroddiadau Pwyllgor (37) |

| CYNLLUNIO YMYRIADAU | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 38. Sefydlu a gweithredu cylchoedd rheoli a chynllunio cadarn sy'n ymdrin â chynlluniau, blaenoriaethau a thargedau gweithredol a strategol.<br>39. Ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol wrth benderfynu beth fyddai'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau ac ymyraethau eraill.<br>40. Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir.<br>41. Sicrhau fod trefniadau yn hyblyg fel y gellir addasu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau ar gyfer amgylchiadau sy'n newid.<br>42. Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn asesu sut y caiff perfformiad gwasanaethau eu mesur.<br>43. Sicrhau fod capasiti'n bod i gynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.<br>44. Paratoi cyllidebau yn unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>45. Llywio cynllunio adnoddau hirdymor a thymor canolig drwy lunio amcangyfrifon realistig o'r cyllid a'r gwariant cyfalaf wedi ei anelu at ddatblygu strategaeth gyllido gynaliadwy. | • Amserlen o gyfarfodydd y Cyngor wedi ei gymeradwyo gan gyfarfod blynyddol y Cyngor (38,39).<br>• Y Cabinet yn derbyn y rhaglen gwaith i'r dyfodol gyfun yn fisol (38,39).<br>• Pob un o'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn derbyn ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ei hun ym mhob cyfarfod (38,39).<br>• Monitro Perfformiad Cynllun y Cyngor (38,42)<br>• Y Fframwaith Rheoli Risg a Chanllaw Defnyddiwr (40)<br>• Cynllun y Cyngor a Monitro Perfformiad Corfforaethol (41,43)<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (44,45) |

| CYFLAWNI'R CANLYNIADAU A FWRIEDIR I'R EITHAF | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 46. Sicrhau fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn integreiddio ac yn cydbwyso blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau. | • Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (46,47)<br>• Y Broses o Osod y Gyllideb yn Flynyddol (46,47)<br>• Strategaeth Gaffael (49)<br>• Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (49)<br>• Strategaeth Gwerth Cymdeithasol (49)<br>• Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol (49) |
| 47. Sicrhau fod proses y gyllideb yn hollgynhwysol, gan gymryd i ystyriaeth cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hirach. | |
| 48. Sicrhau fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar broblemau cyflawni sylweddol neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai godi yn ystod y cyfnod cyllidebol er mwyn cyflawni canlyniadau tra'n defnyddio adnoddau i'r eithaf. | |
| 49. Sicrhau cyflawniad 'gwerth cymdeithasol' neu 'fanteision cymunedol' drwy gynllunio gwasanaethau a chomisiynu. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 yn nodi mai dyma'r "fantais ychwanegol i'r gymuned yn ogystal â'r pryniant uniongyrchol o nwyddau, gwasanaethau a chanlyniadau". | |

## Egwyddor E: Datblygu capasiti'r Cygnor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

| DATBLYGU CAPASITI'R ENDID | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 50. Adolygu ein gweithrediadau, perfformiad, a'r defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.<br>51. Gwella'r defnydd o adnoddau drwy weithredu technegau fel meincnodi a dewisiadau eraill yn briodol er mwyn penderfynu sut y caiff adnoddau'r Cyngor eu dyrannu fel bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon.<br>52. Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol.<br>53. Datblygu a chynnal cynllun gweithlu effeithiol i wella dyraniad strategol adnoddau. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol (50,51)<br>• Hunanasesiad Corfforaethol (50)<br>• Monitro Perfformiad Cynllun y Cyngor (50,51)<br>• Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a'r Cynllun Rheoli Asedau a Gytunwyd (50,51)<br>• Adolygu Datganiad Polisi a Safonau Pobl a Gofal Cwsmer y Cyngor (50)<br>• Meincnodi'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (lle bo'n berthnasol) (51)<br>• Crynodeb Archwilio Archwilio Cymru (51,52)<br>• Partneriaethau/fforymau strategol a/neu ranbarthol - er enghraifft, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (52)<br>• Strategaeth Pobl a gefnogwyd ac a gymeradwywyd a chynllun gweithredu cysylltiedig (53)<br>• Rheoli cynllun pontio, asesiadau cynllunio'r gweithlu (gan gynnwys cynlluniau olyniaeth) a datganiadau gwytnwch gwasanaeth ac effeithlonrwydd (53) |

| DATBLYGU GALLU ARWAIN YR ENDID AC UNIGOLION ERAILL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 54. Datblygu protocolau i sicrhau fod arweinwyr etholedig a phenodedig yn trafod eu cyfrifoldebau priodol yn gynnar yn y berthynas, a bod gan bawb ddealltwriaeth o rolau ac amcanion.<br><br>55. Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r mathau o benderfyniadau a ddirprwywyd i'r Cabinet a'r rhai hynny a gadwyd er mwyn i'r Cyngor benderfynu arnynt ar y cyd.<br><br>56. Sicrhau fod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi diffinio rolau arwain yn glir o fewn y strwythur lle mae'r Prif Weithredwr yn arwain y Cyngor o ran gweithredu'r strategaeth a rheoli darparu'r gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodwyd gan Aelodau ac mae pob un yn darparu dull o gadw cydbwysedd ar gyfer awdurdod y naill a'r llall.<br><br>57. Datblygu galluoedd Aelodau ac uwch reolwyr i gyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol.<br><br>58. Sicrhau fod gan weithwyr fynediad i broses gyflwyno briodol wedi ei theilwra i'w rôl gyda hyfforddiant a datblygu parhaus yn cyd-fynd â gofynion unigol a sefydliadol a bod hyn ar gael ac yn cael ei annog.<br><br>59. Sicrhau fod gan Aelodau a gweithwyr y sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a'r gefnogaeth briodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus.<br><br>60. Sicrhau datblygu personol, sefydliadol ac yn y system gyfan drwy ddysgu ar rennir, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o wendidau llywodraethu mewnol ac allanol.<br><br>61. Sicrhau fod yna strwythurau mewn grym i annog cyfranogiad y cyhoedd.<br><br>62. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinydd ei hun a sicrhau fod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol gan adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau.<br><br>63. Dal gweithwyr i gyfrif drwy adolygiadau perfformiad rheolaidd sy'n ystyried anghenion hyfforddiant a datblygu.<br><br>64. Sicrhau fod trefniadau mewn grym i gynnal iechyd a lles y gweithlu a chefnogi unigolion i gynnal eu lles corfforol a meddyliol eu hunain. | • Mae ein Cyfansoddiad a'n Cynllun Dirprwyo o dan adolygiad yn rheolaidd ac maent yn gosod y trefniadau ar gyfer ein llywodraethu (54, 55, 56 a 57).<br>• Swydd ddisgrifiad wedi ei ddiffinio'n glir ar gyfer y Prif Weithredwr sy'n gosod y rolau statudol, strategol, rheoli ac arwain. (56)<br>• Gallu ymateb i ofynion newid drwy hyblygrwydd o fewn strwythur yr Uwch Reolwyr. (57)<br>• Cyflwyniad a chefnogaeth unigol corfforaethol a phenodol i wasanaethau ar gyfer pob gweithiwr mewn swyddi newydd. Cyflwyniad a chefnogaeth bwrpasol ar gyfer Aelodau etholedig (58).<br>• Ar ôl etholiadau cyngor cyfan, mae yna raglen gyflwyno gynhwysfawr ar gyfer Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd (57).<br>• Mae arfarniadau perfformiad yn un o nifer o ddulliau rheoli perfformiad a ddefnyddir, gan gynnwys cyfarfodydd un i un, goruchwyliaeth ddyddiol a chyfarfodydd tîm, sy'n anelu i sicrhau fod perfformiad gweithwyr yn cyfrannu at amcanion busnes ac yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ymagwedd gyfannol i reoli perfformiad (58,63).<br>• Caiff gwybodaeth a sgiliau eu datblygu a'u cynnal drwy sesiynau briffio a gweithdai rheolaidd (59 a 60).<br>• Mae ystod o fodiwlau e-ddysgu ar gael i weithwyr ac aelodau i hybu (neu i loywi) eu gwybodaeth yn ymwneud â meysydd penodol (59).<br>• Cynlluniau gweithredu yn dilyn archwiliad gan reoleiddiwr allanol (60).<br>• Protocol rheoleiddio allanol mewn grym (60).<br>• Ystod o ddulliau ymgynghori â'r cyhoedd, polisi pryderon a chwynion a phrotocolau statudol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd o ran Trosolwg a Chraffu (61).<br>• Croesawu adolygiadau cymheiriaid o drefniadau llywodraethu a darparu gwasanaeth i wella effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth (62)<br>• Mae strwythurau gyrfa mewn grym ar gyfer yr holl weithwyr ac annog cyfranogiad o ran datblygu a hyfforddiant (62,63)<br>• Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer yr holl weithwyr, mae manylion y cyrsiau sydd ar gael ar yr Infonet ac mae modd archebu lle drwy iTrent (63). |

| DATBLYGU GALLU ARWAIN YR ENDID AC UNIGOLION ERAILL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| | • Cynnydd yn y defnydd o e-ddysgu i gefnogi gweithwyr sy'n gweithio mewn dull hybrid (63).<br>• Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor gan gynnwys Polisïau'r Gweithle yn ymwneud ag Iechyd a Lles, Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau a Thrais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gael ar yr Infonet (64).<br>• Darparu a hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol ar gyfer materion yn y cartref neu yn y gwaith a sy'n ychwanegu at y gefnogaeth sydd ar gael gan Iechyd Galwedigaethol (64).<br>• Adran Iechyd a Lles bwrpasol ar yr Infonet sy'n rhoi mynediad i gefnogaeth ar lefel unigol, rheolwyr a thîm, gan gynnwys y rhifau defnyddiol a'r dolenni i rwydweithiau cefnogi allanol e.e. MIND, y Samariaid (64) darpariaeth cadw gwyliadwriaeth ar iechyd ar gyfer y gweithwyr hynny a allai fod yn agored i sŵn, dirgryniad a sylweddau sy'n beryglus i iechyd (64). |

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gref

| RHEOLI RISG | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 65. Cydnabyddiaeth bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd, ac y dylid ei ystyried ym mhob agwedd o'r broses o wneud penderfyniadau.<br>66. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig, a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.<br>67. Sicrhau y dyrennir cyfrifoldebau dros reoli risgiau unigol yn glir | • Fframwaith Rheoli Risg, dogfennau gweithdrefnol a Chanllaw i Ddefnyddwyr (65).<br>• System reoli perfformiad i gofnodi manylion Cofrestrau Risg (65,66,67)<br>• Datblygu Cynlluniau Busnes (65) |

| RHEOLI PERFFORMIAD | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 68. Monitro darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylu, cyflawni a chynnal adolygiad ôl-weithredu annibynnol.<br>69. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad.<br>70. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol mewn grym sy'n annog her adeiladol a thrafodaeth ar bolisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud ac felly hybu perfformiad y Cyngor a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano.<br>71. Darparu adroddiadau rheolaidd i Aelodau ac uwch reolwyr ar gynlluniau cyflawni gwasanaeth ac ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau.<br>72. Sicrhau fod yna gysondeb rhwng y camau manylu (fel cyllidebau) ac adrodd ar ôl gweithredu (e.e. datganiadau ariannol). | • Cynllunio Busnes (68)<br>• Rheoli Risg (68)<br>• Monitro Perfformiad (68)<br>• Adolygiadau Ar Ôl Gweithredu (68)<br>• Asesiadau o Effaith Integredig (69)<br>• Rheolau Gweithdrefnol Ariannol (69)<br>• Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (69)<br>• Pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (70)<br>• Y Broses Alw i Mewn (70)<br>• Y Cabinet (70,71)<br>• Cyfansoddiad y Cyngor (70)<br>• Polisïau'r Cyngor (70)<br>• Monitro Perfformiad Cynllun y Cyngor (71)<br>• Hunanasesiad Corfforaethol (71) |

| RHEOLI PERFFORMIAD | SUT MAE’R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| | • Rhaglen a chofnodion a gyhoeddwyd i’r cyhoedd (71)<br>• Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu a adroddwyd yn gyhoeddus (71)<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a adroddwyd yn gyhoeddus (71)<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a adroddwyd yn gyhoeddus (71)<br>• Proses Fonitro’r Gyllideb (72)<br>• Adroddiadau Monitro’r Gyllideb (72)<br>• Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (72) |

| RHEOLAETH FEWNOL GADARN | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 73. Alinio'r strategaeth rheoli risg a'r polisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion y Cyngor. | • Fframwaith Rheoli Risg a Chanllaw i Ddefnyddwyr (73,74)<br>• Datblygu Cynlluniau Busnes (73)<br>• Adolygiadau Archwilio Mewnol (74)<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo strategaeth ac adroddiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn (74,76).<br>• Strategaeth Gorfforaethol Gwrth-dwyll a Llygredigaeth (75)<br>• Cynllun Ymateb i Dwyll (75)<br>• Polisi Rhannu Pryderon (75)<br>• Archwilio Mewnol a Chydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) (76)<br>• Cyflawni Cynllun Seiliedig ar Risg Blynyddol Archwilio Mewnol (74,76)<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys chwe Aelod a thri Aelod lleyg. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn Aelodau lleyg (77)<br>• Cylch Gorchwyl a Siarter y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (77)<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (77)<br>• Cydymffurfedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda chanllaw y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio (77) |
| 74. Gwerthuso a monitro prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor yn rheolaidd. | |
| 75. Sicrhau fod trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredigaeth effeithiol mewn grym. | |
| 76. Sicrhau fod sicrwydd ychwanegol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn cael ei ddarparu gan yr archwilydd mewnol. | |
| 77. Sicrhau fod yna Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol i'r Cabinet ac yn darparu ffynhonnell arall o drefniadau sicrwydd effeithiol ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd reoli effeithiol ac y gwrandawir ar ei argymhellion ac y gweithredir arnynt. | |

| RHEOLI DATA | SUT MAE’R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 78. Sicrhau bod trefniadau effeithiol sy’n cydymffurfio â’r gyfraith mewn grym er mwyn casglu, storio, defnyddio a rhannu data yn ddiogel, gan gynnwys prosesau i sicrhau diogelwch data personol.<br>79. Sicrhau fod trefniadau effeithiol sy’n cydymffurfio â’r gyfraith mewn grym wrth rannu data gyda chyrff eraill.<br>80. Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd. | • Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data. (78,79,80)<br>• Swyddog Diogelu Data i gynghori ar ein rhwymedigaethau, cysylltu gyda Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a phwy sy’n adrodd yn uniongyrchol i’r Prif Swyddog Llywodraethu. (78,79,80)<br>• Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i fonitro cydymffurfedd (78,79,80)<br>• Bwrdd Prosiect Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i ddarparu ffocws a throsolwg uwch reolwyr (78,79,80)<br>• Grŵp Gweithredol Cydymffurfiaeth Gwybodaeth yn cynnwys swyddogion cyswllt Diogelu Data o bob rhan o’r Awdurdod i fonitro perfformiad a sicrhau cysondeb rhwng Portffolios. (78, 79, 80)<br>• Asesiadau o Effaith Diogelu Data (78,79)<br>• System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (78,79)<br>• Polisïau Diogelu Data, Canllawiau a Hyfforddiant (78,79)<br>• Hyfforddiant Seiberddiogelwch (78)<br>• Ardystiad y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (78,79)<br>• Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (79)<br>• Cynllun Gweithredu Cam 2 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (78,79,80)<br>• Cofrestr Asedau Gwybodaeth Gorfforaethol (78,80)<br>• Trefniadau Prosesu Data (78)<br>• Trefniadau Rhannu Data (79)<br>• Adrodd a monitro Corfforaethol o achosion o dorri rheolau diogelwch (78, 79 ,80)<br>• Archwiliad Diogelu Data (80)<br>• Asesiad Cydymffurfedd TG (78, 79, 80)<br>• Gwiriad Iechyd TG Blynyddol (78)<br>• Cofnodi data perfformiad corfforaethol yn ganolog (InPhase) (80)<br>• Archwiliadau ansawdd data allanol (80)<br>• Archwiliad mewnol o ddata i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau (80) |

<table>
<tr><th>RHEOLAETH GREF O ARIAN CYHOEDDUS</th><th>SUT MAE’R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN:</th></tr>
<tr><td>81. Sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn cefnogi cyflawni’r canlyniadau yn yr hirdymor a’r perfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr.<br><br>82. Sicrhau fod rheolaeth ariannol wedi ei datblygu’n dda wedi ei gwreiddio ym mhob lefel sefydliadol o gynllunio a rheoli, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol.</td><td>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (81)<br>• Cynlluniau Effeithiolrwydd Busnes<br>• Rhan 4 o’r Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Polisi a Chyllideb.<br>• Adroddiadau monitro refeniw misol i’r Cabinet a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (82)<br>• Adroddiadau monitro cyfalaf chwarterol i’r Cabinet a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (82)<br>• Datganiad Polisi a Rheoli’r Trysorlys (82)<br>• Cynllun Dirprwyo (82)<br>• Rheolau Gweithdrefnol Ariannol (82)<br>• Cyfansoddiad y Cyngor (82)<br>• Dangosyddion Perfformiad Mewnol ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, wedi’i fonitro o fewn Cynllun y Cyngor (82)</td></tr>
</table>

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da yn ymwneud â thryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol

| GWEITHREDU ARFERION DA YN YMWNEUD Â THRYLOYWDER | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 83. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull dealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa a fwriedir a sicrhau eu bod yn hawdd i gael atynt a holi.<br>84. Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu'r swm cywir o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a hybu craffu cyhoeddus tra'n peidio â bod yn rhy feichus i'r Cyngor ei ddarparu ac i ddefnyddwyr ei ddeall. | • Gwefan y Cyngor (83,84)<br>• Cynllun cyhoeddi'r Cyngor (83,84)<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol (83,84)<br>• Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor (83,84)<br>• Fformat Adroddiadau a Chanllaw Ysgrifennu Wedi'i Ddiweddaru (83,84)<br>• Modd darllen a defnyddio ffeithluniau o strategaethau a dogfennau cyhoeddus yn hawdd (83,84) |
| **GWEITHREDU ARFERION DA WRTH ADRODD** | **SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN:** |
| 85. Adrodd yn flynyddol o leiaf ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth ei adnoddau.<br>86. Sicrhau fod Aelodau ac uwch reolwyr yn berchen y canlyniadau.<br>87. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu i ba raddau y mae'r egwyddorion a gaiff eu cynnwys yn y Fframwaith hwn wedi eu gweithredu a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i ddangos llywodraethu da (Datganiad Llywodraethu Blynyddol).<br>88. Sicrhau fod y Fframwaith yn cael ei weithredu i sefydliadau gwasanaeth a gaiff eu rheoli ar y cyd neu a rennir fel bo'n briodol.<br>89. Sicrhau fod y wybodaeth ar berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael ei baratoi ar sail gyson ac amserol a bod y datganiadau yn galluogi cymharu gyda sefydliadau eraill tebyg. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol (85)<br>• Monitro Perfformiad Cynllun y Cyngor (85)<br>• Datganiad Cyfrifon wedi'i Archwilio a'i Lofnodi (85,86,89)<br>• Monitro ac adrodd ar welliannau'r Cyngor (87)<br>• Hunanasesiad Corfforaethol (86,87)<br>• Cod Llywodraethu Corfforaethol (87,88)<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol (87,88)<br>• Diweddariad Canol Blwyddyn ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (87)<br>• Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol (87,88)<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (87,88) |

| SICRWYDD AC ATEBOLRWYDD EFFEITHIOL | SUT MAE'R CYNGOR YN CYFLAWNI HYN: |
|---|---|
| 90. Sicrhau y gweithredir ar argymhellion ar gyfer camau i unioni a wnaed gan archwilio allanol.<br>91. Sicrhau fod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol gyda mynediad uniongyrchol at Aelodau mewn grym sy'n rhoi sicrwydd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Cyngor ac y gweithredir ar argymhellion.<br>92. Croesawu her cymheiriaid, adolygiadau ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion.<br>93. Cael sicrwydd ar risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau drwy drydydd parti a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol.<br>94. Sicrhau wrth weithio mewn partneriaeth, fod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi ei gydnabod ac yn cael ei fodloni. | • Adroddiadau pwyllgor ac olrhain camau gweithredu (90)<br>• Protocol Adrodd a Monitro Rheoleiddio Allanol (90)<br>• Olrhain camau gweithredu ac adrodd (90)<br>• Safle annibynnol Archwilio Mewnol o fewn y Cyngor gyda mynediad uniongyrchol at Uwch Swyddogion ac Aelodau (91)<br>• Cyfarfodydd chwarterol gydag Arweinydd y Cyngor (91)<br>• Hunanasesiad blynyddol ac asesiad allanol ar gyfer cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (91)<br>• Hunanasesiad Rheolaidd o Wasanaethau (92)<br>• Dilysiad allanol drwy feincnodi (pan fo ar gael) ac asesiadau wedi'u comisiynu (92)<br>• Adroddiadau Rheoleiddio Allanol (Cofnodion Pwyllgor) (92)<br>• Crynodeb Blynyddol o adroddiadau Rheoleiddio Allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (92)<br>• Adolygiadau Cymheiriaid (92)<br>• Trefniadau llywodraethu partneriaethau (94) |

# 3. Monitro ac Adolygu

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ffurfio rhan o'r Cyfansoddiad. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau ei fod yn gyfredol a'i fod yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaethau perthnasol a gofynion eraill. Caiff y Cod Llywodraethu Corfforaethol ei ddefnyddio i ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Dyma aelodau'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol:

| | |
|---|---|
| **Lisa Brownbill (Cadeirydd)** | Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg |
| **Emma Heath** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol |
| **Andrew Elford** | Prif Gyfrifydd |
| **Richard Ashley** | Rheolwr Busnes Gwasanaethau TGCh |
| **Sharon Carney** | Rheolwr Corfforaethol Pobl a Datblygiad Sefydliadol |
| **Margaret Parry-Jones** | Hwylusydd Trosolwg a Chraffu |
| **Rebecca Jones** | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid |
| **Kelly Oldham-Jones** | Swyddog Gweithredol Strategol |
| **Sam Perry** | Swyddog Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol |

# 4. Datganiadau Sicrwydd

Rwy'n fodlon fod yna drefniadau llywodraethu effeithiol mewn grym, gan gynnwys system gadarn o reolaeth fewnol, drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth a bod hyn yn parhau.

| Llofnod | Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|
|  | **Y Prif Weithredwr** | 5 Chwefror 2024 |
|  | **Swyddog Adran 151** | 2 Chwefror 2024 |
|  | **Prif Swyddog - Llywodraethu** | 30 Ionawr 2024 |